# BVDCymru

2025 - 2026







Cymraeg

# Cynnwys


Beth yw **BVD**Cymru? ........ 3
Pam dileu BVD? ........ 4
Y daith hyd yn hyn yng Nghymru ........ 5
Dileu BVD mewn rhanbarthau eraill o Ynysoedd Prydain ........ 6
Sut i gydymffurfio â deddfwriaeth BVD? ........ 7
Derbyn eich Canlyniadau ........ 9
Beth yw BVD a sut allaf sgrinio amdano? ........ 10
- Prawf Sgrinio Blynyddol (Prawf Gwrthgyrff) ........ 11
- Helfa PI (Prawf Antigenau) ........ 13

Astudiaeth Achos ........ 16
Cwestiynau Cyffredin ........ 18
Am wybodaeth bellach........ 20


I ddarllen Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024, sganiwch y cod QR.

# Beth yw **BVD**Cymru?

Ail-frandiwyd Gwaredu BVD i **BVD**Cymru yn 2024 wrth i weithgarwch dileu BVD gychwyn ar ei gyfnod deddfwriaethol yng Nghymru.

Mae **BVD**Cymru yn dwyn ynghyd y sector gwartheg yng Nghymru a Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth i gynorthwyo a llywio'r rhaglen genedlaethol er mwyn dileu Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD), ac mae deddfwriaeth yn sylfaen i hyn.

Mae **BVD**Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

# Pam dileu BVD?

Mae dileu Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) yn bwysig am sawl rheswm allweddol, sy'n cynnwys:

## Iechyd Anifeiliaid

- Mae Feirws BVD yn atal y system imiwnedd, sy'n golygu bod gwartheg yn fwy agored i ddal clefydau eraill, e.e. niwmonia lloi.
- Mae'n achosi problemau atgynhyrchu fel anffrwythlondeb, erthyliadau a namau geni.
- Gall lloi sy'n cael eu heintio yn gynnar yn ystod beichiogrwydd ddatblygu i fod yn anifeiliaid â haint parhaus (PI), gan lledaenu'r feirws trwy gydol eu hoes a pheri risg cyson i'r fuches.

## Effaith Economaidd

- Yn aml, bydd buchesi sydd wedi'u heintio yn wynebu colledion sylweddol o ganlyniad i ffrwythlondeb is, byddant yn cynhyrchu llai o laeth, gwelir cyfraddau tyfu gwael a chostau milfeddygol uwch.
- Mae dileu yn gwaredu'r costau hirdymor trwy waredu'r angen i drin anifeiliaid dro ar ôl tro, eu brechu a cholledion o ran cynhyrchiant.

## Perfformiad Gwell y Fuches

- Mae gwartheg iach sy'n rhydd rhag BVD yn tyfu'n gyflymach, maent yn atgenhedlu yn fwy effeithlon ac maent yn cynhyrchu mwy o laeth, gan wella eu cynhyrchiant yn gyffredinol.

## Masnach ac Enw Da

- Dylid rhannu statws rhydd rhag BVD mewn marchnadoedd, gan gynnig sicrwydd i brynwyr am yr anifail y maent yn ei brynu.
- Byddai sicrhau statws cenedlaethol rhydd rhag BVD yn gwella delwedd amaethyddiaeth yng Nghymru fel sector o ansawdd uchel ac sy'n ymwybodol o glefydau.

# Y daith hyd yn hyn yng Nghymru:

### 2017-2022

Rhaglen wirfoddol Gwaredu BVD lle'r oedd 9,369 (85%) o fuchesi Cymru wedi ymgysylltu â'r rhaglen, gan gwblhau profion sgrinio BVD er mwyn sicrhau statws y fuches a chynhaliwyd profion PI yn ôl yr angen.

### Mehefin 2022

Yn dilyn galw o fewn y diwydiant, lansiwyd Ymgynghoriad BVD Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, lle'r oedd 89% o'r ymatebwyr o'r diwydiant yn cefnogi'r cam o gyflwyno deddfwriaeth.

### Mai 2024

Caiff Gwaredu BVD ei ail-frandio fel **BVD**Cymru wrth i weithgarwch dileu BVD gychwyn ar ei gyfnod deddfwriaethol.

### Mehefin 2024

Cyflwyno Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024.

### 1 Gorffenaf 2024

**Daeth deddfwriaeth i rym – sgrinio blynyddol gorfodol ac ynysu anifeiliaid PI**

Mae sgrinio BVD blynyddol yn orfodol ar gyfer pob buches yng Nghymru. Ni cheir unrhyw eithriadau. **RHAID** i chi gwblhau eich profion sgrinio cyntaf cyn 1 Gorffennaf 2025. Rhaid ynysu unrhyw anifeiliaid PI a nodir, ac ni fydd modd eu symud o'r fferm (oni bai eu bod yn cael eu symud yn uniongyrchol i'w lladd).

### 1 Gorffenaf 2026

**Bydd gofynion deddfwriaethol ychwanegol yn dod i rym – cyfyngiadau symud a ffocws ar nodi a gwaredu anifeiliaid PI**

Rhaid i bob buches nad yw'n negatif brofi pob anifail ar y daliad yn unigol, gan gynnwys y lloi. Bydd gofyn i unrhyw ddaliad sy'n cadw anifail PI gynnal prawf antigenau BVD, heb fod dros 60 diwrnod cyn eu symud (oni bai eu bod yn cael eu symud yn uniongyrchol i'w lladd). Bydd yr holl ofynion deddfwriaethol a gyflwynwyd ar 1 Gorffennaf 2024 yn parhau i fod yn berthnasol.

# Dileu BVD mewn rhanbarthau eraill o Ynysoedd Prydain

Mae rhanbarthau eraill o Ynysoedd Prydain wedi sicrhau cynnydd arwyddocaol wrth reoli BVD. Mae'r Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon wedi gweithredu rhaglenni dileu.


**Yr Alban**

Rhaglen dileu BVD a arweinir gan y diwydiant, trwy gyfrwng profion sgrinio arolygu, Helfa PI a gwaredu anifeiliaid PI. Bellach, mae dros 90% o'r buchesi magu yn negatif. Mae'r cam olaf yn targedu heintiau sy'n weddill trwy gyfrwng gweithgarwch profi parhaus ac ymgysylltu â ffermwyr.

**Gogledd Iwerddon:**

Rhaid i bob llo gael tag meinwe cyn pen 20 diwrnod o'u genedigaeth er mwyn nodi unrhyw anifeiliaid PI sy'n weddill.

O 2025, cyflwynir cyfyngiadau symud ar gyfer buchesi sy'n cael eu heffeithio, a fydd yn cyfyngu ar ledaeniad pellach.



**Gweriniaeth Iwerddon:**

Gorfodir profion ar loi a phrofion sgrinio er mwyn arolygu buchesi, a gwaredir anifeiliaid PI yn brydlon ac mae cyfyngiadau symud wedi cael eu cyflwyno i atal lledaeniad. Mae hyn wedi gostwng nifer yr achosion BVD yn sylweddol.

**Lloegr:**

Nid oes rhaglen dileu BVD gorfodol. Fodd bynnag, bydd y Llwybr Iechyd a Lles Anifeiliaid yn ariannu gwaith i ddelio â BVD ar ffermydd.

# Sut i gydymffurfio â deddfwriaeth BVD?

Yn unol â gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024, **rhaid** i bob fferm sgrinio eu buches am wrthgyrff BVD bob blwyddyn.

Rhaid cynnal y prawf sgrinio blynyddol cyntaf erbyn 1 Gorffennaf 2025.

**Rhaid i bob fferm sgrinio am BVD – nid oes unrhyw eithriadau**.

Bydd canlyniadau'r prawf sgrinio hon yn rhoi statws BVD i ffermydd ac yn penderfynu a fydd gofyn cynnal gwaith ymchwilio pellach er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth.

Rydym yn rhagweld y bydd 80% o fuchesi yn cael canlyniad negatif, a'r unig ofyniad deddfwriaethol ar y buchesi hyn fyddai iddynt barhau i sgrinio bob blwyddyn.

## Statws BVD Buches:

Rhoddir statws i bob fferm. Esbonnir y ddau statws posibl isod:

### Statws BVD Negatif

Dyfarnir y statws hwn pan fydd y pum stoc ifanc ym mhob grŵp rheoli a brofwyd fel rhan o'r gwaith sgrinio blynyddol wedi cael canlyniad gwrthgyrff negatif.

Neu, pan fo fferm wedi cwblhau Helfa PI, bod yr holl anifeiliaid PI wedi cael eu gwaredu, a chyflwynwyd cais i newid statws y fferm.

Y camau nesaf:

- Cynnal Bioddiogelwch.
- Parhau i sgrinio bob blwyddyn.

## Statws BVD Nad yw’n Negatif

Caiff y statws hwn ei neilltuo i ffermydd:

- Lle y mae un neu fwy o’r pum stoc ifanc a sgriniwyd fel rhan o’r prawf sgrinio blynyddol wedi cael canlyniad positif am wrthgyrff.
- Os rhoddir diagnosis BVD trwy gyfrwng unrhyw ffordd arall.
- Neu, os bydd canlyniad sgrinio blynyddol fferm wedi dod i ben / heb gael ei gwblhau.

Y Camau nesaf:

- Os na fyddwch wedi sgrinio yn ystod y 12 mis diwethaf, trefnwch brawf gyda’ch milfeddyg er mwyn sicrhau statws presennol.
- Os ydych chi wedi cael canlyniad sgrinio positif yn ddiweddar (yn ystod y 12 mis diwethaf), cysylltwch â’ch milfeddyg i drafod cynnal Helfa PI. Efallai bydd eich milfeddyg yn gallu cynnig opsiwn gwahanol.
- Os nodir anifail PI, rhaid eu hynysu ac ni fydd modd eu symud oddi ar y daliad oni bai eu bod yn mynd yn syth i gael eu lladd.
- Os bydd Helfa PI wedi cael ei gwblhau ac mae pob anifail PI wedi cael eu gwaredu, cysylltwch ag EIDCymru ynghylch newid statws eich buches.

## Yn unol â’r ddeddfwriaeth:

Ni all ceidwaid symud anifeiliaid PI neu anifeiliaid positif o ran antigenau BVD oddi ar y daliad oni bai eu bod yn cael eu symud yn uniongyrchol i’w lladd.

Rhaid ynysu pob anifail sydd wedi cael canlyniad positif am antigenau BVD neu sy’n anifail PI a gadarnhawyd ar y daliad, a dylid eu cadw ar wahân i weddill y fuches am weddill eu hoes.

**O 1 Gorffennaf 2026:**

Ni all buches sydd â statws nad yw'n negatif symud unrhyw wartheg oddi ar y daliad heb sicrhau prawf unigol antigenau BVD negatif cyn symud (oni bai eu bod yn cael eu symud yn uniongyrchol i'w lladd).

Os cedwir unrhyw anifeiliaid PI ar y fferm, bydd angen prawf unigol antigenau negyddol ar wartheg eraill sydd angen symud o fewn 60 diwrnod cyn symud (oni bai eu bod yn symud yn uniongyrchol i'w lladd).

Rydym yn awgrymu'n gryf y dylai pob fferm sy'n cael statws nad yw'n negatif gydweithio'n agos gyda'u milfeddyg yn ystod y flwyddyn i ddod i lanhau eu buches cyn 1 Gorffennaf 2026 oherwydd y bydd pethau yn fwy heriol ar ôl y dyddiad hwn.

# Derbyn eich canlyniadau

Bydd labordai cofrestredig cymeradwy yn lanlwytho canlyniadau profion BVD i gronfa ddata **BVD**Cymru, a reolir gan EIDCymru.

Wrth samplu, rhaid llenwi ffurflen **BVD**Cymru a'i hanfon gyda'r samplau i'r labordy.

Os nodir eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn symudol ar y ffurflen hon, byddwch yn cael eich hysbysu yn awtomatig pan fydd canlyniadau eich prawf yn barod i'w gweld.

Gellir lawrlwytho canlyniadau a'u hargraffu neu eu rhannu mewn neges e-bost o'r ddolen a anfonwyd trwy'r hysbysiad i gynorthwyo gweithgarwch prynu gwybodus.

Os nad oes gennych chi gyfeiriad e-bost a rhif ffôn symudol, cysylltwch â phractis eich milfeddyg i gael eich canlyniadau – byddant wedi cael dolen i'r canlyniadau.

EIDCymru

# Beth yw BVD a sut allaf brofi amdano?

Mae Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) yn glefyd a achosir gan feirws.

Mae BVD yn cael effaith arwyddocaol ar les gwartheg a chynhyrchiant y fferm, gan achosi erthyliadau, anffrwythlondeb, lloi sydd â namau corfforol, ac iechyd gwael y fuches, gan gynyddu costau trin.

Mae dileu BVD yn gwella iechyd y fuches ac yn gostwng costau meddyginiaeth.

Amcangyfrifir mai costau blynyddol presenoldeb BVD ar fferm sy'n cynnwys 100 o wartheg eidion yw £4,500 ac mae'n £15,000 y flwyddyn i fferm sydd â 130 o wartheg godro.

## Sut mae profi am BVD?

Ceir dwy ffordd wahanol o brofi am BVD, y mae'r ddwy ohonynt yn profi am wahanol bethau o fewn y fuches:

- Defnyddir profion gwrthgyrff i ganfod statws eich buches yn ystod y prawf sgrinio blynyddol.
- Defnyddir profion antigen i ganfod statws firws anifeiliaid unigol.

Nesaf, rhoddir esboniad manylach o'r gwahaniaeth rhwng y ddau brawf, ym mha sefyllfa y byddai pob prawf yn cael ei ddefnyddio, a'r hyn y mae'r canlyniadau yn ei olygu.



## Prawf Sgrinio Blynyddol (Prawf Gwrthgyrff)

**Diben** – nodi a yw buches wedi cael cyswllt â'r feirws.

## Sut allaf sgrinio am BVD?

Cysylltwch â phractis eich milfeddyg i drefnu ymweliad â'ch fferm. Ystyriwch gyfuno eich prawf sgrinio BVD blynyddol gyda'ch prawf TB neu weithgarwch arall er mwyn bod yn effeithlon.

Caiff statws y fuches ei wirio trwy:

- Gymryd sampl gwaed gan bum llo heb eu brechu sydd rhwng 9 a 18 mis oed o bob grŵp rheoli*.
- Fodd bynnag, os na fydd hyn yn bosibl, siaradwch â'ch milfeddyg am arweiniad pellach ynghylch pa wartheg amgen y bydd modd eu profi ar eich fferm.

*Diffiniad o Grŵp Rheoli – *Grwpiau gwartheg sy'n cael eu rheoli a'u cadw ar wahân ar yr un fferm. Rhaid bod gwartheg wedi cymysgu am 2 fis er mwyn iddynt gael eu dosbarthu fel un grŵp rheoli.*



## Prawf Sgrinio Blynyddol (Prawf Gwrthgyrff) - beth maen nhw'n ei olygu?

### Positif o ran Gwrthgyrff – Statws Nid yw’n Negatif

Ar ryw adeg yn ystod eu bywydau, mae’r anifeiliaid hyn wedi cael cyswllt â feirws BVD.

Mae canlyniad positif ymhlith anifeiliaid ifanc (9-18 mis oed) yn dynodi bod y cyswllt wedi digwydd yn ddiweddar.

Gallai ffynhonnell yr haint fod yn anifail PI ar eich fferm, cyswllt gyda gwartheg cyfagos, gwartheg yn cymysgu mewn marchnadoedd neu achosion o dorri amodau bioddiogelwch.

**Ni ddylid ynysu anifeiliaid sy’n bositif o ran gwrthgyrff, a’u lladd, gan nad ydynt yn ffynhonnell haint hirdymor.**

Os byddwch yn cael prawf sgrinio gwrthgyrff positif, mae hwn yn rhybudd a dylech drafod y canlyniadau gyda’ch milfeddyg a chynnal ymchwiliadau pellach a phrofion antigenau (h.y. Helfa PI) ar eich fferm.

### Prawf Sgrinio Gwrthgyrff Negatif – Statws BVD Negatif

**NID** yw’r anifeiliaid hyn wedi cael haint BVD yn ystod eu hoes.

Os bydd yr holl anifeiliaid yn eich prawf sgrinio blynyddol yn cael canlyniad negatif, mae hyn yn awgrymu nad yw BVD yn bresennol ar eich fferm, yn enwedig os profwyd anifeiliaid a fagwyd ar y fferm.

**Os byddwch yn cael prawf sgrinio gwrthgyrff blynyddol negatif, ni fydd gofyn cymryd unrhyw gamau pellach – mae eich buches yn negatif o ran BVD.**

Dylech gynnal bioddiogelwch a pharhau i gynnal profion sgrinio bob blwyddyn er mwyn cadw eich statws negatif.

## Helfa PI
## (Prawf Antigenau)

**Diben** – nodi anifeiliaid positif o ran y feirws (anifeiliaid PI), sy'n gyfrifol am ledaenu BVD. Proses a elwir yn Helfa PI.

## Beth yw Anifail â Haint Parhaus (PI)?

Mae anifeiliaid â Haint Parhaus (PI) yn ganolog i drosglwyddiad BVD, wrth iddynt ollwng lefelau uchel o'r feirws yn barhaus a chyfaddawdu iechyd y fuches trwy ddargyfeirio adnoddau o weithgarwch cynhyrchu.

Mae anifeiliaid PI yn gollwng y feirws yn barhaus a byddant yn heintio gwartheg eraill y byddant yn cael cyswllt efo nhw.

Ni all gwartheg ddatblygu i fod yn anifeiliaid PI yn nes ymlaen yn ystod eu bywyd, maent yn cael eu geni yn anifeiliaid PI neu beidio.

Anifeiliaid â Haint Parhaus (PI) yw gwartheg sydd wedi profi'n bositif am y feirws ddwywaith, 21 diwrnod ar wahân. Dim ond i'w lladd yn uniongyrchol y gellir symud anifeiliaid PI BVD. Ni ddylid eu symud trwy farchnad neu i unrhyw ddaliad arall.

**Ni ellir trin na gwella anifeiliaid PI.**




## Beth yw Helfa PI?

Yn dilyn prawf sgrinio blynyddol positif, a chael trafodaethau gyda milfeddyg, argymhellir Helfa PI fel arfer i nodi'r anifeiliaid hynny sy'n gyfrifol am ollwng y feirws yn y fuches (anifeiliaid PI), a'u gwaredu er mwyn cael gwared ar BVD.

Anfonir samplau gwaed neu feinwe clust i'r labordy i'w dadansoddi, er mwyn cynnig diagnosis os yw'r anifail a brofwyd yn bositif o ran y feirws.

Rhaid cynnal profion unigol ar yr holl wartheg yn y daliad, gan gynnwys ffetysau a erthylwyd, fel rhan o Helfa PI.

Mae Helfa PI cyflawn yn golygu bod pob anifail unigol sydd wedi cofrestru yn y CPH hwnnw yn cael eu profi am antigenau.



## Beth mae canlyniadau fy mhrawf antigenau (Helfa PI) yn eu golygu?

### Positif o ran Antigenau

Mae'r anifail hwn yn cario'r feirws.

Gall anifail sy'n cael prawf antigenau positif fod yn anifail PI neu'n anifail sydd wedi cael eu heintio dros dro.

Dylid ynysu anifail positif o ran antigenau ar unwaith er mwyn osgoi lledaeniad pellach.

Dylid cynnal prawf ar anifeiliaid positif o ran antigenau eto ar ôl 21 diwrnod i gadarnhau a ydynt yn anifail PI.

Os bydd yr ail brawf yn brawf positif o ran antigenau, mae hyn yn cadarnhau bod yr anifail yn anifail PI a dylid eu cadw ar wahân o hyd, ac argymhellir eu bod yn cael eu lladd cyn gynted ag y bo hynny'n bosibl yn ymarferol.

**Ni ellir trin na gwella anifeiliaid PI.**

### Negatif o ran Antigenau

Nid yw'r anifail hwn yn anifail PI.

Mae canlyniad negatif i'r prawf ar lo yn dynodi mam negatif.

Os bydd yr ail brawf yn rhoi canlyniad negatif o ran antigenau, mae hyn yn dangos bod yr anifail wedi cael eu heintio dros dro adeg y prawf cyntaf a bod yr haint wedi clirio erbyn yr adeg y cynhaliwyd yr ail brawf 21 diwrnod yn ddiweddarach.

Nid yw'r anifail hwn yn ffynhonnell haint BVD ar eich fferm mwyach, a gallant barhau i fod yn rhan o'r fuches.

# **Astudiaeth Achos:** *Torri'n Rhydd o BVD*

Busnes gwartheg bîff yng Nghanolbarth Cymru a gafodd drafferth am flynyddoedd gyda Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD).

Roedd gan y fferm anifeiliaid anhysbys oedd yn Heintiedig yn Barhaus (PI), a oedd yn lledaenu'r firws o hyd.

Arweiniodd hyn at gyfraddau uchel o erthyliadau a marw-enedigaethau, lloi gwan, a chyfraddau twf is, hyd yn oed ymhlith anifeiliaid oedd wedi'u brechu, wrth i'r firws danseilio imiwnedd y fuches yn gyson.

Roedd y baich ariannol yn sylweddol wrth golli lloi ac yn sgil costau bwydo uwch a mwy o driniaethau meddygol

## Y Datrysiad: Rhaglen Waredu Dargedig

Gan weithio ochr yn ochr â'r milfeddyg, George Roberts o Milfeddygon Hafren, fe weithredodd y fferm raglen gynhwysfawr i waredu BVD:

**Tynnu Anifeiliaid PI:**

- Cafodd pob llo ei brofi am BVD gyda thagiau clust, a chadwyd unrhyw anifeiliaid PI ar wahân ar unwaith a'u hanfon i'w lladd.

**Gwell Bioddiogelwch:**

- Rhoddwyd protocolau llym ar waith wrth gyflwyno anifeiliaid newydd i'r fferm (ynysu, profi) ac wrth ei chyrchu (ffensys, rheoli ymwelwyr) i osgoi ailgyflwyno'r clefyd.

**Brechu Strategol:**

- Cynhaliwyd amserlen frechu gyson ar gyfer yr anifeiliaid bridio a'r stoc ifanc er mwyn meithrin imiwnedd cadarn i'r fuches.

**Monitro Parhaus:**

- Mae'r ffermwr wedi parhau i sgrinio am BVD yn flynyddol, ac yn dilyn ei brawf sgrinio ers lansio'r ddeddfwriaeth BVD, mae gan ei fuches statws BVD negyddol.

## Y Canlyniad: Rhydd o BVD ac yn Ffynnu

**Dim Mwy o Anifeiliad PI:**
- Cafodd ffynhonnell yr haint parhaus ei difa.

**Gwell Atgenhedlu:**
- Cyfraddau beichiogi uwch a llai o erthyliadau.

**Lloi Mwy Iach:**
- Tyfu ar gyfraddau cyflymach, llai o salwch, a llai o angen am feddyginiaeth.

**Arbed Costau:**
- Arbedion sylweddol ar filiau milfeddygol a gwell trosiant o borthiant.

**Mwy o Elw:**
- Hwb uniongyrchol i elw'r fferm wrth i'r fuches gyfan berfformio'n well.

## Casgliad: Model am Lwyddiant

Wrth sôn am siwrne'r fferm, nododd y milfeddyg, George Roberts:

*"O ganlyniad i waith caled y ffermwr, profwyd bod gwaredu BVD yn gyraeddadwy ac yn fuddiol iawn. Mae llwyddiant y fferm yn tynnu sylw at bwysigrwydd tynnu anifeiliaid PI o'r fuches, bioddiogelwch llym, brechu effeithiol, a monitro parhaus."*



**Mae gan y fferm hon yng nghanolbarth Cymru bellach fuches iachach sy'n fwy cynhyrchiol a phroffidiol, ac mae'n esiampl bwerus i ffermydd eraill sy'n wynebu heriau BVD.**

# Cwestiynau Cyffredin

### C. A oes angen i mi gael prawf sgrinio am BVD?

Oes, yn ôl y ddeddfwriaeth, **rhaid** i bob daliad yng Nghymru sydd â gwartheg sgrinio am BVD bob blwyddyn, waeth beth fo'r system rheoli.

### C. Nid oes gennyf unrhyw anifeiliaid yn y grŵp oedran cywir, sef 9 – 18 mis, a oes angen i mi sgrinio o hyd?

Oes, rhaid i chi gwblhau prawf sgrinio. Siaradwch â'ch milfeddyg, byddant yn dewis yr anifeiliaid mwyaf addas yn eich buches i'w profi.

### C. Rydw i'n brechu fy holl anifeiliaid, a oes angen i mi sgrinio o hyd?

Oes, mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod pob buches yn cwblhau prawf sgrinio BVD blynyddol. Er mwyn cyflawni hyn, efallai y bydd angen i chi addasu eich protocol brechu. Dylech siarad â'ch milfeddyg am y ffordd y gallwch gydweithio i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol.

### C. Rydw i'n tagio ac yn profi fy holl anifeiliaid, felly rydw i'n gwybod nad oes gennyf unrhyw anifeiliaid PI, pam bod yn rhaid i mi sgrinio?

Ar ôl ymgynghori â'r diwydiant, mae'r diwydiant gwartheg yng Nghymru wedi mabwysiadu'r dull sgrinio er mwyn dileu BVD. Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i bob buches o wartheg gwblhau prawf sgrinio blynyddol o'i stoc ifanc, **nid oes unrhyw eithriadau**. Bydd unrhyw fuches nad yw'n cael ei sgrinio bob blwyddyn yn cael statws buches nad yw'n negatif yn awtomatig.

### C. Rydw i'n rhedeg uned besgi a bydd fy holl anifeiliaid yn cael eu lladd, sut mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i mi?

Rhaid i chi gwblhau prawf sgrinio blynyddol o'ch stoc ifanc er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

## C. A oes modd i mi optio allan o brofion BVD?

- Nac oes, bydd angen i bob buches, waeth beth fo eu system rheoli, gwblhau prawf sgrinio blynyddol er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

## C. Os bydd fy mhrawf sgrinio blynyddol yn bositif, a fydd yn rhaid i mi gynnal Prawf PI?

- O 1 Gorffennaf 2026, bydd gofyn i bob buches sy'n cael canlyniad positif gynnal profion antigenau ychwanegol.

## C. Pam bod anifeiliaid PI yn cael canlyniad gwrthgorff negatif?

- Bydd anifeiliaid PI yn cael canlyniad gwrthgorff negatif gan eu bod yn cael eu heintio yn y groth ar yr adeg pan fo'r system imiwnedd yn datblygu. Felly, ystyrir feirws BVD fel rhan normal o'r llo, yn yr un modd â'i groen, ei galon a'i organau eraill. Felly, mae'r system imiwnedd yn dysgu anwybyddu BVD a gall y feirws atgynhyrchu mewn ffordd afreolus. Os ydych chi'n gofidio am hyn, siaradwch â'ch milfeddyg.

## A ydw i'n gallu defnyddio profion o'r tanc llaeth fel rhan o Helfa PI?

- Na, rhaid profi pob anifail unigol trwy gael sampl gwaed neu feinwe.

## C. Rydw i'n prynu gwartheg o'r tu allan i Gymru, sut allaf i sicrhau fy mod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth o hyd?

- Rhaid cynnal prawf antigenau o unrhyw wartheg sy'n dod i mewn i Gymru ac nad yw eu statws BVD yn hysbys, cyn pen 20 diwrnod iddynt gyrraedd. Rhaid ynysu buwch feichiog nad yw ei statws yn hysbys nes bydd yn cael canlyniad prawf antigenau negatif neu nes bydd yn geni'r llo.

# Am wybodaeth bellach:

## Cysylltwch â'ch Milfeddyg

Os oes gennych chi unrhyw bryderon, eich milfeddyg ddylai fod eich pwynt cyswllt cyntaf. Mae eu gwybodaeth nhw o'ch fferm a'ch buches yn eu rhoi yn y sefyllfa orau i gynnig cyngor prydlon a phriodol i chi.

## Sefydliadau Cynorthwyol:

- Am ymholiadau ynghylch cronfeydd data neu ganlyniadau, cysylltwch ag EIDCymru ar **01970 636959**
- Am ymholiadau technegol neu bolisi, cysylltwch â **BVD**Cymru ar **01554 748576**
- Am ymholiadau polisi, cysylltwch â'r sefydliadau canlynol:
  - Undeb Amaethwyr Cymru – eich swyddfa FUW sirol neu **01970 820820**
  - NFU Cymru - **0370 845 8458**
  - Canolfan Milfeddygaeth Crymru - **01970 612374**
  - Mentera (Gwasanaethau Iechyd Anifeiliaid) - **01248 668639**
  - Iechyd da - **01970 636688**

